07/09/2020

Rhaglen Dysgu Carlam

Annwyl Bennaeth,

Manteisiwn ar y cyfle hwn, yn fuan yn y tymor newydd, i roi diweddariad i chi ar y cymorth y bydd GwE yn ei ddarparu i chi, a'ch tîm, o safbwynt 'cyflymu'r dysgu' i ystod oedran y disgyblion sydd yn eich ysgol. Bydd gweithredu **Rhaglen Dysgu Carlam**, yn y tymor byr, yn greiddiol i'n strategaeth. Ond, wrth symud ymlaen, bydd y dull gweithredu hefyd yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu a chorffori dysgu ac addysgu effeithiol ymhellach.

Rhannwyd manylion y rhaglen genedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar 21 Awst, 2020 (https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam). Dyrannwyd £29 miliwn yn ychwanegol yn uniongyrchol i ysgolion i greu cynhwysedd newydd i 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' [cewch wybod gan eich awdurdod lleol pa swm a ddyrannwyd i'ch ysgol]. Mae ein strategaeth yn plethu â'r disgwyliadau cenedlaethol.

Bydd 'pecyn cymorth' GwE hefyd yn golygu y bydd deunyddiau ac adnoddau dysgu wrth law i gefnogi'r **Rhaglen Dysgu Carlam** yn eich ysgol, gyda phwyslais ar wella cysondeb ac ansawdd yr addysgu a datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm a'r ystod oedran.

Rhennir rhagor o fanylion â chi ac arweinwyr yr ysgol dros yr wythnosau nesaf, yn yr uwchradd drwy eich fforymau penaethiaid a'n rhwydweithiau ar gyfer Arweinwyr Dysgu ac Addysgu a'r Pynciau Craidd. Yn y cynradd, byddwn yn defnyddio y fforymau arferol i gydweithio hefo chi.

Dros y misoedd nesaf, rydym yn awyddus i gydweithio ag ysgolion ar draws y rhanbarth i ddatblygu ymhellach y dull gweithredu a'r gronfa adnoddau.

Accelerated Learning Programme

Dear Headteacher,

We are taking this opportunity, early in the new term, to update you on the support GwE will be providing for you and your team in relation to *'accelerating the learning'* for the ability range of pupils within your school. Implementing an **Accelerated Learning Programme** in the short term will be a crucial element within our strategy but in moving forward the approach will also incorporate support for the further development and embedding of effective teaching and learning.

Details of the national programme were shared by Welsh Government on 21st August 2020 (https://gov.wales/recruit-recover-raise-standards-accelerating-learning-programme). An additional £29 million of funding has been allocated direct to schools to create new capacity to 'Recruit, Recover and Raise Standards' [your local authority will inform you of the sum allocated to your school]. Our strategy dovetails with national expectations.

The GwE 'support package' will also grant access to resources and learning materials to support the **Accelerated Learning Programme** in your school, with a focus on improving the consistency and quality of teaching and the development of literacy and numeracy skills across the curriculum and the age range.

Further details will be shared with you and your school leaders over the coming weeks, via your head teacher forums and our existing Teaching and Learning Leads and Core Subject Networks in the secondary sector. Primary sector contact will also be made via existing networks.

We are keen to collaborate with schools across the region to further develop the approach and the resource bank over the coming months.

Bydd ein dull gweithredu, ynghyd â'r adnoddau ategol, yn cryfhau ymhellach eich ymdrechion i:

- ddatblygu gwell cysondeb ac ansawdd yn y cynnig 'cyffredinol' sydd ar gael i'r ystod oedran
- dargedu grwpiau o ddysgwyr yn effeithiol yn y tymor byr
- ddatblygu yn effeithiol sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm
- ddarparu modelau dysgu cyfunol effeithiol
- gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Rydym yn cydnabod y bydd cryn alw ar y cyllid a fydd ar gael i'ch ysgol chi trwy'r rhaglen genedlaethol. Drwy ddefnyddio ein dull gweithredu a'n hadnoddau rhanbarthol yn effeithiol, credwn y bydd y cyllid ychwanegol yn cael yr effaith orau bosibl.

Rydym yn ymwybodol pa mor eithriadol o anodd, prysur a heriol yw'r cyfnod hwn i'ch ysgol a'ch arweinwyr, ac rydym yn hynod ddiolchgar am eich cymorth a'ch cydweithrediad parhaus.

Byddwn yn rhannu dyddiadau'r sesiynau briffio â chi maes o law.

Mae croeso i chi gysylltu â'ch Arweinydd Craidd cyn y sesiynau briffio i drafod ymhellach unrhyw agwedd ar yr uchod.

Cofion cynnes,

Our approach, coupled with the supporting resources will further strengthen your efforts to:

- develop greater consistency and quality in the 'universal' offer available to the ability range
- effectively support targeted groups of learners in the short term
- effectively support the development of literacy and numeracy skills across the curriculum
- deliver effective blended learning models
- plan for the new Curriculum for Wales.

We acknowledge that there will be many demands on the funding made available for your school as part of the national programme. Making effective use of our adopted regional approach and resource, will, we believe, maximise the impact of the additional funding.

We are aware that this is an extremely testing, busy and challenging time for you as school leaders and we greatly value your ongoing support and collaboration.

We will share the dates for the briefing sessions with you shortly.

Please feel free to contact your Core Lead should you wish to further discuss any aspect of the above prior to the briefing sessions.

Warmest regards,

Mrs Claire Homard, Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council
Mr Garem Jackson, Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council
Mrs Karen Evans, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam / Wrexham County Borough Council
Dr Lowri Brown, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy / Conwy County Borough Council
Mr Rhys Howard Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council
Mr Geraint Davies, Cyngor Sir Ddinbych / Denbighshire County Council
Mr Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE / GwE Managing Director